CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Diffiniad Gweithredol Gwerth Cymdeithasol
Cytunwyd gan Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru 23 Tachwedd 2017

Pwy sydd wedi ei gynnwys yn y sector gwerth cymdeithasol?

Mae'r sector gwerth cymdeithasol yn cynnwys y bobl, y sefydliadau, y rhwydweithiau, y fforymau ac unrhyw rai eraill sy'n ystyried mai cynyddu lles pobl a chymunedau yw eu prif ddiben, ac ail-fuddsoddi'r rhan fwyaf o elw neu'r holl elw i sicrhau lles.

Dyma rai o'r enghreifftiau: gwirfoddolwyr, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, mentrau cymdeithasol, cyrff isadeiledd, a'r rhwydweithiau a'r fforymau sy'n bodoli i gefnogi eu gweithgareddau.

Beth mae'r sector gwerth cymdeithasol yn ei gynhyrchu sy'n ei wahaniaethu oddi wrth sefydliadau eraill?

Gwerth cymdeithasol yw gwerth perthynol, neu'r pwysigrwydd y mae pobl a chymunedau yn ei roi ar newidiadau i'w les.

Prif gynhyrchion y sector gwerth cymdeithasol yw lles cymdeithasol, amgylcheddol, ac economaidd ar draws cymunedau ac ym mywydau unigolion, yn hytrach na chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau yn uniongyrchol.

Sut mae'r sector gwerth cymdeithasol yn cynhyrchu ei ganlyniadau?

Mae'r sector yn cynhyrchu gwerth cymdeithasol drwy gyd-gynhyrchu: ymarferwyr a phobl yn cydweithio fel partneriaid cyfartal i gynllunio a darparu gwasanaethau, ar sail egwyddorion:

- Cydnabod pobl fel asedau a bod ganddynt gyfraniad cadarnhaol i'w wneud wrth ddylunio a gweithredu gwasanaethau.
- Cefnogi a grymuso pobl i gymryd rhan wrth ddylunio a gweithredu gwasanaethau.
- Grymuso pobl i gymryd cyfrifoldeb am, a chyfrannu tuag at, eu lles eu hunain;
- Sicrhau fod ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â phobl i gyflawni canlyniadau lles ar lefel unigol ac ar lefel gwasanaeth;
- Cynnwys pobl wrth lunio canlyniadau ar gyfer gwasanaethau.

Egwyddorion Gwerth Cymdeithasol:

1. **Cynnwys budd-ddeiliaid –** Llywio'r hyn sy'n cael ei fesur a sut y caiff ei fesur a'i werthfawrogi mewn perthynas â gwerth cymdeithasol drwy gynnwys budd-ddeiliaid.

2. **Deall beth sy'n newid –** Mynegi sut y caiff newid ei greu a gwerthuso hyn drwy'r dystiolaeth a gesglir, gan gydnabod newidiadau positif a negyddol yn ogystal â'r rhai sydd wedi eu bwriadu a rhai sy'n anfwriadol.

3. **Gwerth y pethau sy'n bwysig –** Wrth wneud penderfyniadau am ddyrannu adnoddau rhwng gwahanol ddewisiadau mae angen cydnabod gwerthoedd budd-ddeiliaid**.** Mae gwerth yn cyfeirio at bwysigrwydd perthynol gwahanol ganlyniadau. Caiff ei hysbysu gan ddewisiadau budd-ddeiliaid.

4. **Cynnwys yr hyn sy'n berthnasol yn unig –** Pennu pa wybodaeth a thystiolaeth sy'n rhaid eu cynnwys yn y cyfrifon i roi darlun cywir a theg, fel y gall budd-ddeiliaid ddod i gasgliadau rhesymol ynglŷn ag effaith.

5. **Peidio gor-hawlio -** Hawliwch y gwerth y mae'r gweithgareddau yn gyfrifol am ei greu yn unig.

6. **Bod yn dryloyw –** Dangos y sail dros ystyried fod y dadansoddiad yn gywir a gonest, a dangos sut y bydd yn cael ei adrodd i a'i drafod gyda budd-ddeiliaid**.**

7. **Gwirio'r canlyniad –** Sicrhau bod sicrwydd annibynnol priodol.

Ann Woods
Prif Swyddog
Cyngor Gwirfoddol Sir y Fflint

Urtha Felda
Cydlynydd, Partneriaeth Niwro Trydydd Sector Gogledd Cymru
Cymdeithas MS Cymru

Cyd-gadeiryddion Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru